Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

7. Dod o hyd i arian a'i gael

7.9 Rhoi (ffynonellau arian gan noddwyr)

Mae'r cyhoedd yn darparu'r sector wirfoddol gydag un o'r ffynonellau incwm mwyaf, er bod yr incwm yma yn llawer anoddach ei gael na ffynonellau eraill megis ymddiriedolaethau a grantiau. Gellir cael cefnogaeth rhoddwr unigol ond trwy ddulliau codi arian arloesol ac weithiau'n gymhleth, ond pan yn llwyddiannus, gallant fod yn hynod enillfawr.

Rhoddwyr unigol

Rhaid i godwyr arian fod yn glir yn y ffordd y maen nhw'n denu'r cyhoedd. Mae gan roddwyr unigol eu cymhellion, nodweddion a dulliau ffafriol o gynnig eu cefnogaeth, a rhaid ystyried y rhain wrth gysylltu â hwy. Er mwyn uchafu effeithiolrwydd, rhaid i'r codwr arian geisio mynd at y gynulleidfa darged addas drwy'r sianelau cyfathrebu perthnasol.

Gall unigolion gefnogi'u helusennau mewn amryw ffyrdd;

- un rhodd
- rhoddion rheolaidd
- bod yn aelod neu'n 'ffrind'
- codi nawdd ar gyfer digwyddiadau neu weithgareddau

Chwilio am roddion unigol gan unigolion yw'r dull traddodiadol mwyaf llwyddiannus o godi arian ar gyfer nifer o elusennau a grwpiau cymunedol. Wrth ofyn am hyn, gellir gwneud mwy drwy ddefnyddio ffyrdd arloesol a chreadigol, sef amrywiadau o'r canlynol:

- post uniongyrchol
- wyneb yn wyneb
- digwyddiadau
- apeliadau

Prif roddwyr

Gellir diffinio 'prif roddwyr' mewn amryw ffyrdd yn ôl maint y rhodd a maint yr elusen sy'n ei dderbyn; gall elusennau bach ystyried rhodd o £100 neu fwy yn brif rodd, lle gall elusennau mwy ddiffinio 'prif roddwyr' fel y rhai sy'n rhoi miloedd o bunnau. Naill ffordd neu'r llall, maen nhw gyd yn gefnogwyr gwerthfawr, a gellir eu targedu drwy ymchwilio'r bas data rhoddwyr a thrwy ymgyrchoedd arbenigol i sbarduno diddordeb pellach.

Rhoi ymrwymedig

Mae rhoi ymrwymedig neu hybu rhoddion rheolaidd yn un o'r ffyrdd mwyaf gwerthfawr o godi arian. Gall rhoddwyr gefnogi eu helusennau yn gyson. Dros gyfnod hwy, mae gofyn am gefnogaeth ymrwymedig yn debygol o gynnig yr adenillion ariannol gorau ar unrhyw ddigwyddiadau hyrwyddo. Gellir trefnu rhoddion rheolaidd drwy archeb sefydlog, rhoddion o'r cyflogau, talebau elusen neu unrhyw ddull talu traddodiadol arall.

Ôl-ofal y cefnogwr

Byddai sawl mudiad yn darfod heb gefnogaeth gyhoeddus, a byddai nifer o wasanaethau hanfodol a gwerthfawr yn dirwyn i ben. Felly mae'n hanfodol bod mudiadau yn diolch i'w cefnogwyr, ble'n bosib, am bob rhodd. Mae dweud diolch yn ffurfiol hefyd yn rhoi cyfle i roi'r newyddion diweddaraf i'r rhoddwr am waith yr elusen, a all arwain at berthynas gryfach a chefnogaeth bellach.

Rhoi corfforaethol

Mae gan fusnesau gyfrifoldeb i gefnogi'u cymunedau, ac mae'r Cynulliad Cymreig - Her Gorfforaethol Cymru yn ceisio cynyddu'r gefnogaeth yma. Mae yna fuddion i'w hennill o'r partneriaethau rhwng y trydydd sector a'r sector preifat, yn nhermau hyrwyddo, delwedd gyhoeddus ac arddangos cefnogaeth i’w gweithwyr. Mae yna fuddion hefyd i'r gweithwyr gan fod cynnwys cymunedol fel gweithgareddau codi arian yn cynnig iddynt ddatblygiad sgiliau, cyfleoedd adeiladu tîm ac ysbryd gwell ymysg y staff.
Gall busnesau gefnogi achosion lleol mewn amryw ffyrdd, drwy gynnig cymorth gyda:

- Cynnyrch neu wasanaethau
- Lleoliad
- Pŵer pwrcasu
- Hyrwyddo
- Pŵer
- Elw

Mae rhoi corfforaethol yn gyfraniad bach iawn o incwm elusennol y DU - o dan 3%, ond gall y buddion o gael perthynas gyda chyflogwyr lleol gynnig gwobrau sylweddol i'r elusennau a'r busnesau.

Addewid Codi Arian?

Mae hwn yn addewid a wneir gan aelodau'r Bwrdd Safonau Codi Arian i'r cyhoedd, gan ymrwymo i'r safonau ymarfer uchaf, a sicrhau fod eu holl weithgareddau yn agored ac yn deg, yn onest ac yn gyfreithiol. Drwy arwyddo gyda chynllun y Bwrdd Safonau Codi Arian mae mudiadau'n cytuno i lynu wrth yr Addewid Codi Arian wrth godi arian.

Wedi ei ddiweddaru:09/06/2011

Gwybodaeth bellach

Charities Aid Foundation
www.cafonline.org

Fundraising Codes of Practice
www.institute-of-fundraising.org.uk

Tax Effective 'Giving'
www.wcva.org.uk/givingwales

Fundraising Standards Board
www.fsboard.org.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
Canolfan Gweithredu Gwirfoddol, 89-90 Stryd Fawr, Merthyr Tudful, CF47 8UH
Elusen Gofrestredig *1060242*

Ffôn: 01685 353900 enquiries@vamt.net
Ffacs: 01685 353909 www.vamt.net

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:09/06/2011

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk